## Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru:

# Gwella Dysgu drwy Ystyried Safbwyntiau Dysgwyr

Gan Sue Lyle a David Hendley, Prifysgol Fetropolitan Abertawe;
Jim Newcomb, Prifysgol Cymru, Casnewydd

Golygwyd gan John Furlong, Prifysgol Rhydychen, 2010

Rh Y A C W E R N Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru
Welsh Education Research Network

T·L·R·P TEACHING & LEARNING RESEARCH PROGRAMME

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu yng Nghymru

**Tystiolaeth ymchwil ar gyfer polisi ac arfer addysgol yng Nghymru**

Y Rhaglen Ymchwil Addysgu a Dysgu (TLRP) (www.tlrp.org/), a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), yw'r rhaglen ymchwil addysgol fwyaf a gomisiynwyd yn y DU erioed. Roedd y rhaglen yn cynnwys 52 o brosiectau mawr gwahanol, yn cwmpasu pob rhan o'r system addysg o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu gydol oes.

Wrth i'r TLRP ddirwyn i ben, daeth yr ESRC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Rhwydwaith Ymchwil Addysgol Cymru (WERN) ynghyd i gomisiynu prosiect terfynol a gynlluniwyd i ystyried goblygiadau canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon ar bolisi ac arfer addysgol yng Nghymru.

Mae pedwar tîm o ymchwilwyr o bob cwr o Gymru wedi adolygu canfyddiadau'r TLRP mewn perthynas â phedwar maes allweddol o bolisi Cymru a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd y gwaith hwnnw ei gydlynu gan John Furlong o Brifysgol Rhydychen.

Y pedwar maes polisi oedd:

- Y Cyfnod Sylfaen
- Gwella Addysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 7 a 14 oed
- Cynhwysiant Cymdeithasol
- Gwella Dysgu drwy Ystyried Safbwyntiau Dysgwyr.

Canlyniad yr adolygiadau yw cyfres o bosteri a phapurau briffio i gyflwyno canfyddiadau'r rhaglen ymchwil fawr hon i lunwyr polisi ac ymarferwyr ledled Cymru. Mae'r adroddiadau'n cynrychioli canfyddiadau timau ymchwil annibynnol; felly, nid ydyn nhw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Crynodeb Gweithredol

Bydd yn rhaid i ddisgyblion a myfyrwyr fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn ôl statud yng Nghymru yn 2010. Felly, mae'r dystiolaeth ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad cryno hwn yn amserol ac yn bwysig iawn gan ei bod yn dangos bod llawer o fanteision i'r dysgwr, yr athro/athrawes a'r ysgol os bydd y dysgwr yn gallu dweud ei ddweud am arferion yr ysgol neu'r coleg.

Mae cyfranogiad disgyblion a myfyrwyr yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), ac mae wrth wraidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Fel rhan o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd ar ôl 2010, bydd Estyn yn edrych yn benodol ar yr hyn mae ysgolion yn ei wneud i gynnwys dysgwyr yn weithredol yn y broses o gynllunio sut y cawn nhw eu haddysgu a'r broses o wneud penderfyniadau yng nghymuned eu hysgol, o dan bennawd cyffredinol 'Lles Disgyblion'.

Mae wyth prosiect ymchwil y TLRP[i] yn cyfleu rôl llais y dysgwr, ac mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at dair thema gyffredinol sy'n codi o'r rhain: 1. Manteision i'r Dysgwyr, 2. Dilysrwydd wrth Ymgynghori, a 3. Goblygiadau a Chyfyngiadau Llais y Dysgwr.

## 1. Canfyddiad allweddol:

**Manteision i'r dysgwyr**

Ceir manteision o gynnwys dysgwyr fel partneriaid gweithredol yn y broses o lywio eu profiadau a'u hamgylchedd dysgu o ran ennyn diddordeb y dysgwr, hunan-barch, hyder a sgiliau.

## Prif oblygiadau:

Dylai athrawon annog myfyrwyr i gymryd rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau gan ddatblygu ffyrdd effeithiol ac effeithlon o ymgynghori â nhw ac ymateb i'w barn mewn ffyrdd priodol. Dylai hyn helpu athrawon i feithrin gwell dealltwriaeth o allu'r disgyblion a datblygu'r gallu i edrych ar yr hyn sy'n gyfarwydd iddyn nhw o safbwynt gwahanol a dod â theimlad newydd o gyffro i arfer yr ystafell ddosbarth.

## 2.
## Canfyddiad allweddol:
**Dilysrwydd wrth ymgynghori**

**Mae agweddau oedolion tuag at blant, a'r farn gysylltiedig am eu gallu i gymryd rhan synhwyrol a chynhyrchiol mewn ymgynghoriadau, yn tueddu i ragfynegi'r dull o ymgynghori a ddefnyddir gan athrawon a sut maen nhw'n ymateb i'r canlyniadau. Tynnir sylw at bwysigrwydd dilysrwydd wrth ymgynghori â phlant, yn ogystal â'r angen i ymgynghori â phob disgybl waeth beth fo'i allu, ei ryw, ei ethnigrwydd neu ei ddosbarth.**

## Prif oblygiadau:

**Dylai athrawon annog pob disgybl i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau – nid y disgyblion mwyaf galluog yn unig. Mae angen perswadio athrawon bod plant a phobl ifanc yn gallu llunio barn synhwyrol a chywir ar eu hysgolion ac mae angen iddyn nhw deimlo'n hyderus na chaiff eu hawdurdod fel athrawon ei danseilio. Mae'r penderfyniad i gyflwyno cyfranogiad disgyblion a myfyrwyr fel gofyniad statudol yng Nghymru yn golygu bod yn rhaid i athrawon ymgynghori â dysgwyr gan sicrhau bod pawb yn cael dweud eu dweud yn rheolaidd.**

## 3.
## Canfyddiad allweddol:
**Goblygiadau a chyfyngiadau llais y dysgwr**

**Weithiau, gall y broses o ddatblygu strategaethau effeithiol i glywed mwy o 'lais y dysgwr' ymddangos fel pe bai'n mynd yn groes i flaenoriaethau eraill yr ysgol. Mae TLRP yn nodi'r cwricwlwm cenedlaethol a'r ffaith bod y llywodraeth yn rhoi gormod o sylw i berfformiad fel rhwystrau posibl i gyflwyno addysgeg ymgynghorol ac ymateb i syniadau disgyblion.**

## Prif oblygiadau:

**Mae'r cwricwlwm sy'n newid yng Nghymru wedi darparu systemau ar gyfer hyrwyddo llais y dysgwr ac mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn annog plant i gymryd rhan; fodd bynnag, gall y sylw gormodol a roddir i agenda safonau weithio yn erbyn cyfranogiad y disgybl. Bydd angen llawer o gymorth ar ysgolion i roi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried bod cyfranogiad disgyblion yn fenter gadarnhaol yn hytrach na gweithred arwynebol yn unig. Fodd bynnag, pan gaiff ei ymgorffori'n effeithiol yn yr ysgol, caiff llais y dysgwr ei glywed yn gliriach a dylai gefnogi agenda ar gyfer newid y bydd disgyblion yn teimlo eu bod yn chwarae rhan weithredol ynddi. Yna gall y cyfranogiad gweithredol hwn ddod yn rhan o fframwaith mwy cynhwysfawr ar gyfer hunanwerthusiad yr ysgol a'r broses o ddatblygu egwyddorion ac arferion democrataidd.**

# Y Dystiolaeth Ymchwil

Prif ffocws yr adolygiad hwn yw prosiect ***Ymgynghori â Disgyblion ar Addysgu a Dysgu y TLRP***[ii]. Roedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys rhwydwaith o chwe phrosiect a oedd yn canolbwyntio ar effaith ymgynghori ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu. Hefyd, ymgynghorwyd ar ***Pwysigrwydd Hanesyddol, Gwleidyddol ac Addysgol Llais y Disgybl***[iii]. Mae'r feta-astudiaeth hon o'r chwe phrosiect yn ystyried sut mae plant a phlentyndod yn newid, a sut mae hyn yn effeithio ar lais y disgybl a democratiaeth mewn ysgolion.

Mae'r holl brosiectau unigol ynghŷd â'r ddolen www.consultingpupils.co.uk y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn yn is-brosiectau o fewn y ddau brif brosiect hyn o'r TLRP:

***Ymgynghori â Disgyblion ar Addysgu a Dysgu y TLRP***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1dsept.html

***Pwysigrwydd Hanesyddol, Gwleidyddol ac Addysgol Llais y Disgybl***
www.tlrp.org/proj/phase1/phase1esept.html

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn yn:
www.consultingpupils.co.uk.

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

## 1. Manteision i'r Dysgwyr

**Prosiectau yr ymgynghorwyd arnyn nhw:**

***Prosiect 3: Safbwyntiau a chyfranogiad disgyblion: dechrau a chynnal y broses***
***Prosiect 4: Potensial y disgyblion i weithio fel (cyd-)ymchwilwyr i'r broses o addysgu a dysgu***
www.consultingpupils.co.uk

***Prosiect 5: Sut mae'r amodau dysgu yn yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn effeithio ar hunaniaeth a chyfranogiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion***

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg ar wefan TLRP.

Mae canfyddiadau ymchwil y TLRP yn nodi bod plant a phobl ifanc yn cael budd o chwarae rhan fwy gweithredol yn eu dysgu eu hunain. Pan fydd athrawon yn dod o hyd i ffyrdd o gynnig mwy o ddewisiadau i ddysgwyr am sut, ble a gyda phwy maen nhw'n dysgu, maen nhw'n ymateb yn gadarnhaol.

Fodd bynnag, dengys yr ymchwil nad yw cynnig dewisiadau i ddisgyblion o ran dysgu yn ddigon; mae angen i athrawon nodi'r sgiliau mae angen i ddysgwyr eu meistroli fel rhan o'u dysgu eu hunain, a chanolbwyntio arnyn nhw. Pan fydd hyn yn digwydd ac mae dysgwyr yn cymryd rhan yn y broses o lunio eu dysgu eu hunain, mae lefelau cymhelliant ac ymrwymiad yn cynyddu. At hynny, mae'r ymchwil yn awgrymu bod disgyblion yn fwy tebygol o ymrwymo i ddysgu os bydd athrawon yn gwneud mwy nag ymgynghori â nhw yn unig ac yn eu cynnwys fel cyd-ymchwilwyr yn y broses ymgynghori, ac os bydd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn bwysig yn yr ysgol a bod eu barn yn cael ei pharchu. Mae'r ymchwil yn dod i'r casgliad bod y gallu i gyfranogi bron yn gyfystyr â chael eu cynnwys ar gyfer dysgwyr.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Manteision i'r Dysgwyr

**Teitl y prosiect:**

**Safbwyntiau a chyfranogiad disgyblion: dechrau a chynnal y broses.**

Mae pwysigrwydd gwahanol grwpiau blwyddyn yn yr ysgol yn thema sy'n codi o'r ymchwil. Yn yr ymchwil hon, nodwyd bod Blwyddyn 8 yn flwyddyn hanfodol i ddysgwyr â goblygiadau pwysig o ran cymhelliant a chyrhaeddiad y myfyrwyr. Canfu ymchwil empirig nad oes hunaniaeth glir gan Flwyddyn 8: mae Blwyddyn 8 wedi'i gwasgu rhwng y cyffro o ddechrau mewn ysgol newydd ym Mlwyddyn 7 a'r cyfle i wneud penderfyniadau ar gyfer TGAU ym Mlwyddyn 9. Y canlyniad yw 'dirywiad Blwyddyn 8'; os yw ysgolion am osgoi hyn, mae angen iddyn nhw roi mwy o statws i Flwyddyn 8, y gall disgyblion edrych ymlaen ato ym Mlwyddyn 7.

Mae'r ymchwil yn argymell y dylai ysgolion roi hunaniaeth glir sy'n canolbwyntio ar ddysgu i Flwyddyn 8 i helpu disgyblion i feddwl a gweithredu'n strategol mewn perthynas â'u dysgu a deall sut y gall ymrwymiad i ddysgu ym Mlwyddyn 8 wella eu cyfleoedd bywyd. Roedd y disgyblion a oedd yn rhan o'r ymchwil am gael cyfleoedd i chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac amser i drafod dysgu, i'w helpu i ddeall goblygiadau tymor hwy gwaith ym Mlwyddyn 8. Daeth yr ymchwil i'r casgliad, er mwyn llwyddo yn yr ysgol, fod angen i fyfyrwyr feithrin sgiliau trefniadol a'r gallu i reoli eu gwaith eu hunain er mwyn bod yn barod i wneud penderfyniadau ym Mlwyddyn 9 ac ar gyfer pwysau'r arholiadau ym Mlynyddoedd 10 ac 11, a gall hyn fod yn ffocws i gymell disgyblion ym Mlwyddyn 8. Mae ymchwilwyr TLRP yn argymell y dylai ysgolion fonitro'r negeseuon maen nhw'n eu rhoi i fyfyrwyr am statws Blwyddyn 8 a gwaith Blwyddyn 8, ac yn awgrymu y dylid canolbwyntio mwy ar oedran a chyfrifoldeb ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd i atal y duedd ymhlith disgyblion i ymddieithrio.[iv]

**Sylw:**

**Mae'n bwysig i ysgolion ystyried sut i ddarparu ar gyfer Blwyddyn 8. Mae angen iddyn nhw roi hunaniaeth glir sy'n canolbwyntio ar ddysgu a mwy o statws i Flwyddyn 8 yn ogystal â thalu sylw i'r ffaith bod plant yn dechrau troi'n oedolion yn ystod y cyfnod hwn. Dylid cynyddu eu cyfrifoldebau ac atgyfnerthu eu cydberthnasau fel 'oedolion' a'u trin fel unigolion mwy aeddfed. Mae prosiect ymchwil y TLRP, *Dysgu Sut i Ddysgu - Mewn Ystafelloedd Dosbarth, Ysgolion a Rhwydweithiau,*[v] yn rhoi canllawiau ar sut y gall ysgolion hyrwyddo annibyniaeth o ran dysgu disgyblion.**

**Cwestiynau allweddol:**

**Sut gall athrawon annog, derbyn a gwerthfawrogi pwysigrwydd llais y dysgwr? Pa benderfyniadau all plant/pobl ifanc eu gwneud drostyn nhw eu hunain ac ar gyfer/gydag eraill? Sut gall athrawon helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol?**

## 2. Dilysrwydd wrth Ymgynghori

**Prosiectau yr ymgynghorwyd arnyn nhw:**

***Prosiect 2: Ffyrdd o ymgynghori â disgyblion ar addysgu a dysgu a gwerthuso'r effaith.***
www.consultingpupils.co.uk

Mae ymchwil y TLRP yn tynnu sylw at y ffaith y gall gwrando ar lais y dysgwr heb ei feirniadu atgyfnerthu hierarchaethau sydd eisoes yn bodoli ymysg plant a phobl ifanc. Mewn gwirionedd, mae llawer o gyfleoedd gwahanol i gynnwys disgyblion a myfyrwyr yn y broses ymgynghori. Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau na chaiff grŵp o ddisgyblion elitaidd ei greu ac y gwrandewir ar leisiau tawelach yr ysgol; dylai ymgynghoriadau ymdrin â materion gwirioneddol a phwysig, a dylid rhannu'r canlyniadau â'r myfyrwyr eu hunain.

Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn syml. Mae'r ymchwil yn nodi y ceir amrywiaeth sylweddol o ran safbwyntiau pobl ifanc o grwpiau gwahanol, ac yn dangos sut y mae anghydraddoldebau cymdeithasol yn llywio cyfathrebu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r gwahaniaethau hyn yn gweithio mewn ffyrdd cymhleth a phwysig o ran rhyw, ethnigrwydd a dosbarth cymdeithasol y dysgwyr.

Mae i'r canlyniadau oblygiadau pwysig i ysgolion os ydyn nhw am sicrhau bod ymgynghoriadau yn ddilys. Mae'r ymchwil yn tanlinellu pa mor bwysig ydyw bod athrawon yn gwrando ar fwy nag un llais. Pan fydd hyn yn digwydd, daw gwahanol ffyrdd o siarad am fywyd yr ystafell ddosbarth i'r amlwg, sy'n cyflwyno agweddau gwahanol ar sut mae dynameg gymdeithasol ystafelloedd dosbarth yn gweithio, a sut mae hyn yn effeithio ar ddysgu unigolion; yn y bôn, mae angen ymgynghori mewn ffordd 'gynhwysol' er mwyn meithrin gallu'r ysgol i fod yn 'sefydliad sy'n dysgu'.

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Dilysrwydd wrth Ymgynghori

**Teitl y prosiect:**

**Sut mae'r amodau dysgu yn yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn effeithio ar hunaniaeth a chyfranogiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion.**

Dangosodd ymchwil mewn ysgol ddosbarth gweithiol sut y cafodd dau blentyn a oedd yn amlwg yn ddosbarth canol eu hymyleiddio gan y grŵp cyfoedion; cynhaliwyd cyfweliadau pellach â'r dosbarth a gwelwyd bod y disgyblion yn edrych i lawr ar allu uchel a llwyddiant academaidd. Roedd sefyllfa'r disgyblion hyn yn effeithio ar eu hunanddelwedd. Roedd plant dosbarth canol eraill yn yr un dosbarth wedi dysgu sut i drin eu hunaniaeth gan gynnal eu statws gyda'u cyd-ddisgyblion. Yn yr un dosbarth roedd dau fachgen dosbarth gweithiol o leiafrifoedd ethnig a oedd yn dawel, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud ymdrech, a chafodd y rhain eu hymyleiddio hefyd. Roedd eu diwydrwydd, eu parodrwydd i gydymffurfio a'u goddefedd yn gweithio yn eu herbyn; roedd nifer o'u cyd-ddisgyblion o'r farn bod ymddygiad o'r fath yn 'fenywaidd'. Nid oedd gan y bechgyn nodweddion o wrywdod goruchafol ac roedd hyn, ynghyd â'u cyfalaf economaidd a diwylliannol isel, yn gweithio yn eu herbyn ac yn eu hymyleiddio. Roedd y bechgyn yn pryderu am eu dysgu ond nid oedden nhw'n credu bod yr athro yn gwrando arnyn nhw. Mae'r ymchwil yn dangos sut y gall ymgynghori â disgyblion ddatgelu agweddau ar ddiwylliant grwpiau cyfoedion a dynameg yr ystafell ddosbarth sy'n gweithio yn erbyn tegwch, colegoldeb ac ymdeimlad o gymuned mewn ystafelloedd dosbarth. Mae disgyblion yn dod â gwahanol fathau o gyfalaf cymdeithasol, economaidd a diwylliannol gyda nhw i'r ystafell ddosbarth, ac mae'r rhain yn rhyngweithio mewn patrymau cymhleth â ffactorau fel dosbarth, rhyw ac ethnigrwydd.

Mae'r ymchwil yn dangos efallai na fydd canfyddiadau athrawon o brofiad y disgybl yn cyfateb i realiti. Nid oedd tybiaethau'r athrawon bod y disgyblion tawel a diwyd yn cael profiadau cadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth a bod ganddyn nhw hunaniaethau cadarnhaol fel dysgwyr yn cyfateb mewn gwirionedd i'w profiadau personol. Ar ôl ymgynghori â'r disgyblion gwelwyd darlun

o ymyleiddio a statws isel yn y grŵp cyfoedion, a oedd yn amharu ar hunaniaethau'r disgyblion oedd wedi'u hymyleiddio fel dysgwyr. Helpodd yr ymchwil athrawon i ddeall profiad addysgu a dysgu'r disgyblion tawelach, a dangosodd sut y gall disgyblion roi gwybodaeth bwysig am ddynameg gymdeithasol ystafelloedd dosbarth.[vi]

**Sylw:**

**Mae cymhlethdod ystafelloedd dosbarth yn gysyniad allweddol sy'n codi o'r ymchwil. Mae'r ymchwil hon wedi nodi ystod o newidynnau a all effeithio ar y broses o ymestyn llais y dysgwr. Mae ystafelloedd dosbarth yn ficrocosmau o gymdeithas, gyda dynameg o ran pŵer a phrosesau o allgáu a chynnwys unigolion a all wneud deialog ddemocrataidd yn anodd, os nad yn amhosibl. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod deall profiad y disgybl yn gam cyntaf pwysig tuag at wella cydberthnasau yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig bod athrawon yn gwrando ar y lleisiau tawel yn yr ysgol gan sicrhau bod y broses ymgynghori yn bwrpasol ac yn llifo. Gall helpu athrawon i ddeall pam mae disgyblion yn ymddieithrio ac ailddiffinio statws myfyrwyr. Dylai ysgolion sicrhau na chaiff grŵp o ddisgyblion elitaidd ei greu a bod y sesiynau ymgynghori yn ymwneud â materion gwirioneddol a phwysig. Dylid rhannu canlyniadau ymgynghoriadau â disgyblion.**

**Cwestiynau Allweddol:**

**Sut rydym yn hyrwyddo dilysrwydd? Sut gall ysgolion sicrhau bod ymgynghoriadau yn ymwneud â materion gwirioneddol a phwysig? Sut gall ysgolion sicrhau bod pob disgybl yn cael ei werthfawrogi, waeth beth fo'i ryw, ei ethnigrwydd neu ei ddosbarth cymdeithasol?**

## 3. Goblygiadau a Chyfyngiadau Llais y Dysgwr

**Prosiectau yr ymgynghorwyd arnyn nhw:**

***Prosiect 5: Sut mae'r amodau dysgu yn yr ysgol a'r ystafell ddosbarth yn effeithio ar hunaniaeth a chyfranogiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion***

***Prosiect 6: Torri tir newydd: mentrau arloesol mewn ysgolion yn ymwneud ag ymgynghori â disgyblion a'u cynnwys***

***Prosiect 7: Meta-astudiaeth: llais y disgybl a dysgu disgyblion***
www.consultingpupils.co.uk

Cyhoeddwyd y prosiectau uchod yn Saesneg yn unig.

Mae ymgynghori â disgyblion mewn ffordd ddilys – yn yr ystyr bod plant a phobl ifanc yn bartneriaid go iawn yn y broses o newid – yn herio cydberthnasau pŵer sefydledig. Mae angen i ddisgyblion wybod a gweld bod eu barn yn cael ei hystyried ac, yn bwysicach fyth, y gweithredir arni. Fel arall, gall yr ymgynghoriad ymddangos yn ffug ac annilys[vii]. Mae'n rhaid i athrawon gydnabod y gall myfyrwyr fod yn arbenigwyr ar ddysgu a'u bod yn gwybod yr hyn sy'n gweithio orau iddyn nhw yn yr ystafell ddosbarth.

Mae athrawon wedi nodi ystod o gyfyngiadau o ran rhoi llais y dysgwr ar waith – megis blaenoriaethau eraill yr ysgol, gofynion arholiadau allanol, cyfyngiadau o ran amser paratoi a diffyg medr o ran cymharu a dehongli data. Mae pryderon eraill yn canolbwyntio ar amheuon o ran gallu plant a phobl ifanc i ddeall beth maen nhw'n cael eu holi yn ei gylch a ph'un a oes ganddyn nhw y sgiliau gwerthuso angenrheidiol i wneud penderfyniadau synhwyrol a chywir[viii]. Nododd rhai athrawon bod rhai plant yn cael trafferth mynegi eu barn yn glir, yn gywir ac yn effeithiol. Os bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y disgyblion hyderus a huawdl yn unig, bydd y canlyniadau wedi'u gwyro.

Mae ymchwilwyr y TLRP hefyd yn nodi'r cwricwlwm cenedlaethol, a'r ffaith bod y llywodraeth yn rhoi gormod o sylw i berfformiad, fel rhwystrau i ymgynghori â disgyblion ac ymateb i'w syniadau. Os caiff plant a phobl ifanc eu grwpio mewn ffyrdd sy'n stigmateiddio'r rheini ar y lefelau is, nid ydyn nhw'n debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r ymgynghoriad

a byddan nhw'n teimlo eu bod wedi cael cam. Os mai llwyddiant mewn profion ac arholiadau yw'r unig beth a werthfawrogir gan ysgolion, yn aml bydd hunanddelwedd wael gan y rheini nad ydyn nhw'n gwneud yn dda.[ix]

**Sylw:**

**Er gwaethaf y gwerth addysgol a ganfyddir gan athrawon yn sylwadau a syniadau eu disgyblion a'u myfyrwyr, mae perygl na fydd ysgolion yn gallu ymateb mewn ffyrdd sy'n bodloni'r dysgwyr na'r athrawon oherwydd cyfyngiadau o ran ysgolion a phynciau a'r galw cynyddol sydd ar athrawon yn eu hystafelloedd dosbarth.**

**Cwestiynau Allweddol:**

**Pwy sy'n gwrando ar leisiau pobl ifanc? Pam eu bod yn gwrando? Sut maen nhw'n gwrando? Sut gall ysgolion adolygu eu harferion i adlewyrchu'r hyn y gall pobl ifanc ei gyflawni? Sut gall ysgolion feithrin cydberthnasau agored ac adeiladol o ran trafod â disgyblion? Sut gall ysgolion sicrhau bod ymgynghori â disgyblion wrth wraidd yr hyn a wnân nhw? A yw ysgolion yn cydnabod y rhan werthfawr y gall ymgynghori â disgyblion ei chwarae fel rhan o'u datblygiad fel 'sefydliad sy'n dysgu' – un sy'n trafod, cyfranogi, ymateb, cefnogi ac ati – mewn perthynas â phob rhan o'u cymuned?**

# Astudiaeth achos

**Thema:**

## Goblygiadau a Chyfyngiadau Llais y Dysgwr

**Teitl y prosiect:**

**Ymgynghori â disgyblion ar addysgu a dysgu**

Mae symud o ymgynghori i gyfranogi yn daith. Lluniodd y TLRP raddfa o gyfranogiad i adlewyrchu'r camau gwahanol y gall ysgolion fod arnyn nhw:

Cam 1: Gwrando ar ddysgwyr

Mae disgyblion yn ffynhonnell o ddata; mae athrawon yn ymateb i ddata myfyrwyr, ond nid yw disgyblion yn rhan o'r broses o drafod data; efallai na fydd unrhyw adborth i'r disgyblion. Mae athrawon yn gweithredu ar y data.

Cam 2: Dysgwyr fel cyfranogwyr gweithredol

Mae athrawon yn dechrau'r broses ymholi ac yn dehongli'r data, ond mae disgyblion yn chwarae rhyw fath o ran yn y broses o wneud penderfyniadau.

Cam 3: Dysgwyr fel ymchwilwyr

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn y broses ymholi ac yn chwarae rôl weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Cam 4: Dysgwyr fel cyfranogwyr a chyd-ymchwilwyr gweithredol llawn

Mae disgyblion yn chwarae rôl weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau; maen nhw'n cynllunio camau i'w cymryd gyda'r athrawon yn seiliedig ar ddata ac yn adolygu effaith yr ymyriad[x].

**Sylw:**

**Gall y raddfa o gyfranogiad helpu ysgolion i baratoi ar gyfer rhoi cyfranogiad y disgybl ar waith mewn ffordd strwythuredig a rheoledig.**

**Cwestiynau allweddol:**

**Beth bydd angen ei wneud i sicrhau y gall pawb reoli system o'r fath a chael budd ohoni? A yw'r prosesau ymgynghori â chyfranogi yn ddilys neu'n symbolaidd? A fydd y newidiadau sydd eu hangen yn hawdd eu gwneud? A fydd y newidiadau er budd yr holl blant?**

# Gwybodaeth Bellach

## Y Cyd-destun Cymreig ar gyfer Llais y Dysgwr

Byddai'n ddefnyddiol edrych ar ymchwil y TLRP yng nghyd-destun fframwaith polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n dangos ymrwymiad clir i'r cysyniad o lais y dysgwr a dysgu gydol oes. Yn 2004, cafodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ei fabwysiadu fel sail ar gyfer llunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc (0–25 oed) yng Nghymru. Mae'r UNCRC yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae Erthygl 12 y Confensiwn yn nodi hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r ffaith bod UNCRC wedi'i fabwysiadu yng Nghymru yn dangos bod angen ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc a gweithredu arnyn nhw.

Pwysleisiwyd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i UNCRC yn *Gweithredu'r Hawliau* a gyhoeddwyd yn 2004. Mae Cynllun Gweithredu UNCRC ar gyfer Cymru, *Gwneud Pethau'n Iawn*, a lansiwyd yn ddiweddar, yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn cymryd camau i atgyfnerthu cyfranogiad mewn ysgolion, ystafelloedd dosbarth ac unrhyw leoliad dysgu i wella cyfleoedd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw.

Ceir canllawiau ar UNCRC yng Nghymru yn www.uncrcletsgetitright.co.uk.

## Goblygiadau ar gyfer y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae ymgorffori **Hawliau'r Dysgwr** drwy UNCRC yn golygu bod yn rhaid cymryd yr hyn mae pobl ifanc yn ei ddweud wrthym am eu profiadau o fod yn ddysgwr, yr hyn sy'n eu rhwystro rhag dysgu a'r hyn sy'n eu helpu i ddysgu o ddifrif. Mae gwrando ar ddysgwyr yn arwain at newidiadau mewn **Cydberthnasau Dysgwyr** ag athrawon a chyd-ddisgyblion a gall hybu **Hunaniaeth Dysgwyr**, a all yn ei dro arwain at **Gweithredu gan Ddysgwyr** – lle y bydd dysgwyr yn chwarae rôl weithredol yn y broses o gynllunio a rheoli eu hamgylchedd dysgu, gan roi rhan benodol iddyn nhw ei chwarae yn y broses ddysgu a'i chanlyniadau. Bydd angen meddwl ac arfer arloesol ar bob lefel er mwyn ymgorffori UNCRC, cyfranogiad y disgybl a goblygiadau llais y dysgwr yn effeithiol mewn arfer. Mae prosiect ymchwil y TLRP *Learning Lives: Learning, Identity and Agency in the Life Course*[xi] yn rhoi rhai enghreifftiau pwysig o bwysigrwydd llais y dysgwr drwy gydol oes unigolion.

Mae'n rhaid i bob ysgol yng Nghymru gael cyngor ysgol effeithiol, y dylid ei ddefnyddio i 'gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o gynllunio a rheoli eu hamgylchedd dysgu, gan roi rhan benodol iddyn nhw ei chwarae yn y broses ddysgu a'i chanlyniadau.'[xii] Mae cynghorau ysgolion, cyfranogiad ehangach mewn prosesau gwneud penderfyniadau mewn ysgolion, fforymau ieuenctid a'r Ddraig Ffynci (y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru) i gyd yn dangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i lais y dysgwr.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw'r ddogfen allweddol i lywio gwelliant mewn ysgolion, ac mae'n rhoi pwyslais mawr ar rôl llais y dysgwr. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn 'penderfyniadau ynghylch eu dysgu'. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i blant a phobl ifanc chwarae rôl 'weithredol o ran gwella effeithiolrwydd ysgolion'.

Pwysleisir pwysigrwydd llais y dysgwr ym mhob un o ddogfennau cwricwlwm Cymru, gan gynnwys Fframwaith Sgiliau 3–19, y Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a Llwybrau Dysgu 14–19. Gall nifer o brosiectau ymchwil y TLRP gefnogi'r broses o ddatblygu llais y dysgwr yng nghyd-destun y cwricwlwm:

Mae'r adroddiad *ACTS II: Sustainable Thinking Classrooms*[xiii] yn dangos pa mor werthfawr yw dulliau trwytho wrth ddatblygu sgiliau meddwl – gall hyn gefnogi'r Fframwaith Sgiliau.

Mae'r adroddiad *Improving Effectiveness of Pupil Groups in Classrooms*[xiv] yn darparu tystiolaeth ymchwil o rym gwaith grŵp i hyrwyddo safonau dysgu uwch drwy annog cyfoedion i gydweithio.

Mae *Supporting Group Work in Scottish Schools: Age and Urban/Rural Divide*[xv] yn ystyried y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ysgolion bach gwledig sydd â dosbarthiadau o oedran cymysg – nodwedd gyffredin mewn ysgolion yng Nghymru. Mae prosiect yng Ngogledd Iwerddon, sef *Consulting Pupils on the Assessment of their Learning*[xvi], yn darparu tystiolaeth y caiff llais y dysgwr ei hybu drwy gynnwys dysgwyr mewn asesiadau.

Er mwyn cynnwys disgyblion yn y broses o benderfynu beth sy'n gwneud ysgol effeithiol, bydd angen i athrawon edrych ar ddisgyblion mewn ffyrdd gwahanol ac ailasesu eu gallu. Bydd angen i ysgolion adolygu a newid agweddau ar drefniadaeth, cydberthnasau ac arferion yr ysgol i adolygu'r hyn y gall pobl ifanc ei gyflawni. Mae'n rhaid i bob dysgwr chwarae rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mewn llawer o ysgolion yng Nghymru, mae disgyblion wedi sefydlu grŵp Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a chwarae rhan mewn trafodaethau ac ymchwil i'r hyn sy'n gwneud ysgol effeithiol.

## Cyfeiriadau


Arnot, M., McIntyre, D., Pedder, D., a Reay, D. (2004) *Consultation in the Classroom: Developing Dialogue about Teaching and Learning.* Caergrawnt: Pearson Publications.

Brown, S., a McIntyre, D. (1993) *Making Sense of Teaching.* Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored.

Doddington, C., Flutter, J., Rudduck, J. (1999) Exploring and explaining 'dips' in motivation and performance in primary and secondary schooling.

*Research in Education,* Rhif. 61, 29–38.
Fielding, M., a Bragg, S. (2003) *Students as Researchers: Making a Difference.* Caergrawnt: Pearson Publications.

Fielding, M. (2001). Students as radical agents of change. *Journal of Educational Change*, 2 (2), 123–141.

McBeath, J. (2006) Finding a voice, finding self. *Educational Review,* Vol 58: 2, 195–207.

McBeath, J., Demetriou, H., Rudduck, J. a Myers, K. (2003) *Consulting Pupils: A Toolkit for Teachers.* Caergrawnt: Pearson Publishing.

Reay, D. (2006). 'I'm not seen as one of the clever children': consulting primary school pupils about the social conditions of learning. *Educational Review*, 58 (2), 171–181.

Rudduck, J. a McIntyre, D. (2007) *Improving learning through consulting pupils.* Llundain: Routledge

Rudduck, J. a Flutter, J. (2004) *Consulting Pupils: What's in it for Schools?* Llundain: Routledge

Rudduck, J. a Flutter, J. (2004) *How to improve your school: giving pupils a voice.* Llundain: Continuum Books

TLRP (2009) *Principle 9 of the 10 Principles of Effective Teaching and Learning*, www.tlrp.org/pub/documents/Principles


## Dogfennau polisi Cymru


Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2006). *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2009a). *Crynodeb Gweithredol* (Llais y Dysgwr i Ysgolion). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2008). *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2007a). *Holiaduron Disgyblion Unigol.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2007b). *Pam ymgynghori â dysgwyr?.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2007c). *Nodiadau grwpiau ffocws Athrawon.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2007ch). *Holiadur i ddisgyblion Blwyddyn 6.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Estyn (2009). *Ysgolion Ardderchog: Gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 21ain ganrif.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2004). *Arweiniad atodol ar wrando ar ddysgwyr.* Caerdydd: Estyn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Research into Children and Young People's Participation in Wales: the benefits of participation.* York Consulting Limited Liability Partnership.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Plant a Phobl Ifanc: Hawliau ar Waith.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). *Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14–19. Dogfen ymgynghori.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Nodiadau

i. **www.TLRP.org.uk**
ii. **www.tlrp.org/proj/phase1/ phase1dsept.html**
iii. **www.tlrp.org/proj/phase1/phase1esept.html**
iv. **Doddington ac eraill 1999**
v. **www.tlrp.org/proj/phase11/phase2f.html**
vi. **Reay 2006**
vii. **McBeath 2006**
viii. **Brown a McIntyre 1993**
ix. **Rudduck a McIntyre 2007**
x. **Consulting Pupils Project Newsletter (2002) www.consultingpupils.co.uk**
xi. **www.tlrp.org/proj/phase111/biesta.htm**
xii. **Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008a**
xiii. **(Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008a) www.tlrp.org/proj/ phase11/phase2g.html**
xiv. **www.tlrp.org/proj/phase11/phase2a.html**
xv. **www.tlrp.org/proj/phase111/Scot_extb.html**
xvi. **www.tlrp.org/proj/leitch.html**